Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Atgyfeiriad Clinig Diagnostig Cyflym

# Canllaw Gwybodaeth

**Beth yw Clinig Diagnosis Cyflym?**

Mae clinig diagnosis cyflym yn ffordd o rhoi diagnosis o achos eich symptomau'n gyflym drwy gynnal nifer o brofion mewn cyfnod byr.


**Pam ydw i wedi cael fy atgyfeirio?**

Mae cael eich atgyfeirio fel hyn yn golygu y byddwch yn cael archwiliadau pellach yn brydlon. Mae hyn am y gallai'r symptomau sydd gennych fod yn gysylltiedig â salwch difrifol, yn cynnwys canser.

Ceir tystiolaeth y gall cael diagnosis cynnar wella'r siawns o drin canser neu unrhyw salwch arall yn llwyddiannus.

**A yw'r atgyfeiriad hwn yn golygu bod gennyf ganser?**

Nac ydy. Nid yw pawb sy'n dod i'r clinig yn cael diagnosis o ganser.  Mae tua 10% o'r cleifion a welir yn y clinigau hyn yn cael gwybod bod canser ganddynt.



I rai pobl, mae'n bosibl y bydd y profion yn dangos cyflwr gwahanol. Gall staff y clinig wedyn rhoi cyngor i chi neu eich atgyfeirio at wasanaeth gwahanol.

**Beth sy'n digwydd nawr?**

Bydd aelod o Dîm y Clinig Diagnosis Cyflym yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad i chi ddod i'r clinig ac efallai y byddwch yn siarad ag un o'n nyrsys arbenigol Clinigol.

**Pa brawf fydda i'n ei gael?**

Os oes angen, cynhelir nifer o brofion er mwyn rhoi digon o wybodaeth i'ch meddyg i roi diagnosis.

**Gallai'r** rhain gynnwys ystod o brofion gwaed, Prawf Imiwnogemegol Ysgarthol (FIT) sy'n archwiliad sy'n edrych am waed yn y carthion, archwiliad corfforol a sgan - (a elwir hefyd yn sgan CT neu CAT).



Bydd tîm o arbenigwyr yn adolygu eich achos, bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi pan fydd y meddyg yn eich gweld. Efallai y bydd angen i chi aros am amser felly dewch ag unrhyw luniaeth y gall fod ei angen arnoch a'ch meddyginiaeth bresennol.

Os oes angen cludiant cleifion arnoch, ffoniwch 0300 123 2303 o leiaf 48 awr cyn eich apwyntiad a dim mwy na phythefnos ymlaen llaw. Yn anffodus, ni allwn gludo unrhyw un sy'n gwmni i chi. Os ydych chi'n poeni am hyn, siaradwch ag aelod o'n tîm. Fodd bynnag, mae croeso i rywun gadw cwmni i chi yn y clinig, ac rydym yn annog hyn os ydych yn darparu eich trafnidiaeth eich hun.

**Beth sydd angen i fi ei wneud nawr?**

Mae'n bwysig iawn eich bod **chi'n** gwneud y canlynol:

☐ Cadarnhau eich rhif cyswllt cywir gyda'ch meddyg teulu.

☐ Os gofynnwyd i chi, eich bod yn cwblhau a dychwelyd y prawf FIT a ddarparwyd gan eich meddyg teulu wnaeth eich atgyfeirio cyn gynted â phosibl. Cysylltwch â ni os nad ydych yn gallu cael un.

Mynd i'ch meddygfa i roi sampl gwaed cyn gynted â phosibl.

Bod yn barod i gael galwad gan y tîm CDC

Bod yn barod ac ar gael i fynd i'r ysbyty ar fyr rybudd.

☐ Rhoi gwybod i'r ysbyty ar unwaith os na allwch fynd i apwyntiad drwy ffonio 01873 732316

**Ble fydd yr apwyntiad?**

Bydd yr apwyntiad ym Mhrif Adran Cleifion Allanol, Ysbyty Brenhinol Gwent. I siarad â rhywun am eich atgyfeiriad, cysylltwch â ni ar 01873 732316

Os oes gennych bryderon ynglŷn â’r atgyfeiriad hwn neu os nad ydych wedi derbyn galwad ffôn o fewn 72 awr, cysylltwch â ni gan fod aelodau'r tîm bob amser yn barod i helpu.